Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Anfrodorol Prydain
CSL, Sand Hutton
Swydd Efrog YO41 1LZ

**Ffôn** 01904 462680
**Gwefan** www.nonnativespecies.org

28/02/2006

Annwyl gyfaill

## Ymgynghoriad ar fersiwn ddrafft Strategaeth Fframwaith Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol Prydain

**1.** Mae tair Gweinyddiaeth Prydain wrthi'n cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar fersiwn ddrafft Strategaeth Fframwaith Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol Prydain. Rwy'n ysgrifennu atoch i wahodd eich sylwadau ar y strategaeth ddrafft. Amlinellir manylion y strategaeth isod.

**2.** Mae rhywogaethau anfrodorol goresgynnol yn un o'r problemau pwysicaf sy'n arwain at golli bioamrywiaeth ledled y byd. Maent hefyd yn cael effaith andwyol ar yr economi, y gymdeithas, iechyd dynol ac iechyd anifeiliaid. Er mai dim ond lleiafrif o rywogaethau anfrodorol sy'n oresgynnol, mae Gweinyddiaethau Prydain wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r problemau a achosir gan y rhywogaethau hynny.

**3.** Nod Strategaeth Fframwaith Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol Prydain yw darparu fframwaith strategol er mwyn cydgysylltu'n well y camau gweithredu a gymerir gan adrannau'r llywodraeth, eu cyrff cysylltiedig a rhanddeiliaid allweddol. Ei phrif nod yw lleihau'r perygl a wynebir ac effeithiau andwyol rhywogaethau anfrodorol goresgynnol ym Mhrydain.

**4.** Lluniwyd y strategaeth ddrafft gan weithgor sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol o'r byd diwydiant, cyrff anllywodraethol a'r llywodraeth, er nad ydym rwy'n siwr wedi llwyddo i gwmpasu'r ystod lawn o safbwyntiau ar faes mor eang a chymhleth. Felly, rydym nawr yn cyhoeddi'r ddogfen at ddibenion ymgynghoriad cyhoeddus.

**5. Ceir copïau o'r ddogfen ymgynghori, yr Asesiad Effaith Reoleiddiol a'r ddogfen ymateb ar wefan Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Anfrodorol Prydain. www.nonnativespecies.org.** Carem gael eich sylwadau ar y ddogfen ddrafft a'r Asesiad Effaith Reoleiddiol. Os hoffech gael copi caled o'r ddogfen ymgynghori, cysylltwch â:

**Diane Owen,** Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Anfrodorol, CSL, Sand Hutton, Swydd Efrog YO41 1LZ; ffôn: 01904 462680; ffacs 01904 462111; e-bost: nnss@csl.gov.uk.

INVESTOR IN PEOPLE
POSITIVE ABOUT DISABLED PEOPLE

**Ymateb i'r papur ymgynghori hwn**

**7.** Anfonwch eich ymateb at:
**Diane Owen,** Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Anfrodorol, CSL, Sand Hutton, Swydd Efrog YO41 1LZ.
Ffoniwch 01904 462680, neu e-bostiwch: nnss@csl.gov.uk.

**8.** Byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech ddefnyddio'r holiadur a ddarperir. Fel arall, nodwch yn glir yn eich ateb pa gwestiynau neu rannau o'r ymgynghoriad yr ydych yn ymateb iddynt, er mwyn ein helpu i ddadansoddi'r ymatebion a gawn.

**9.** A fyddech cystal ag anfon eich sylwadau atom erbyn **23 Mai 2007**.

**10.** Yn unol â pholisi Gweinyddiaethau Prydain ar fod yn agored, ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori bydd copïau o'r ymatebion a gawn yn cael eu rhyddhau i'r cyhoedd eu gweld trwy un o'r canlynol:

- Yn Lloegr: Canolfan Adnoddau Gwybodaeth Defra. Ffôn: 020 7238 6575; e-bost: defra.library@defra.gsi.gov.uk
- Yn yr Alban: Llyfrgell Gweithrediaeth yr Alban. Ffôn: 0131 244 4552
- Yng Nghymru: Canolfan Gyhoeddiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ffôn: 02920 823683; e-bost: assembly-publications@cymru.gsi.gov.uk.

Gallwch drefnu i weld yr ymatebion drwy gysylltu â'r llyfrgell berthnasol. Lle bynnag y bo modd, dylai pobl sy'n bwriadu galw heibio roi rhybudd o'r hyn y bydd ei angen arnynt o leiaf 24 awr ymlaen llaw. Mae'n bosibl y codir tâl gweinyddol er mwyn talu am gostau llungopïo a phostio.

**11.** Os nad ydych am i'r cyhoedd weld eich ymateb, rhaid i chi nodi'n glir eich bod am iddo fod yn gyfrinachol. Ni fydd unrhyw 'ymwadiad' y bydd eich system TG yn ei gynhyrchu ar eich negeseuon e-bost yn cael ei ystyried yn gais i ni gadw'ch ymateb yn gyfrinachol. Dylech hefyd fod yn ymwybodol y bydd yn ofynnol i Weinyddiaethau Prydain roi gwybodaeth i drydydd parti os ydynt yn gofyn am ei gweld, er mwyn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (yr Alban) 2002 a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

**12.** Os bydd gennych unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori, yn hytrach na'r materion a godwyd yn y papur ymgynghori, a fyddech cystal â'u cyfeirio at nail ai:

- Marjorie Addo, Defra Consultation Co-ordinator, Area 7B Nobel House, 17 Smith Square, London SW1P 3JR, neu e-bostiwch: consultation.coordinator@defra.gsi.gov.uk;
- Angela Robinson, Scottish Executive, Victoria Quay, Edinburgh, EH6 6QQ, neu e-bostiwch invasivespecies@scotland.gsi.gov.uk ; neu
- Michelle Calnan, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ, neu e-bostiwch Michelle.Calnan@cymru.gsi.gov.uk.

**13.** Diolch yn fawr am eich help. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â ni.

**Beth fydd yn digwydd nesaf?**

**14.** Ar ôl y dyddiad cau, bydd yr ymatebion yn cael eu dadansoddi a'u hystyried ochr yn ochr ag unrhyw dystiolaeth arall sydd ar gael er mwyn ein helpu i roi'r Strategaeth ar ei gwedd derfynol. Rydym yn gobeithio cyhoeddi adroddiad yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad hwn ar ddiwedd yr haf, ac wedyn cyhoeddi Strategaeth Fframwaith Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol Prydain yn ystod yr hydref 2007.

Yn gywir

**Niall Moore**

**Ysgrifennydd Bwrdd Rhaglen Rhywogaethau Anfrodorol Prydain.**